

Annwyl Rieni/ Gofalwyr,

Rwy'n gobeithio eich bod wedi cael gwyliau hyfryd gyda'ch teulu. Croeso nol i'r flwyddyn academiaidd newydd. Rydyn i gyd yn edrych ymlaen i groesawi'r disgyblion yn ol y mis hwn. Bydd Blwyddyn 1-6 yn dod nol yn rhannol yfory a dydd Gwener (ebyst unigol wedi eu danfon allan ddiwedd y tymor gyda manylion pa ddiwrnodau) a byddant i gyd nol o ddydd Llun 7/9/20. Mae plant y meithrin a derbyn yn cael wythnos ymgartrefu o 7-11/9 gyda'r disgyblion i gyd yn ol ar y 14/9/20.

Mae'r gwaith adeiladu yn parhau yn Adran y Babanod ond rydyn yn falch iawn i gyhoeddi y bydd dosbarthiadau'r meithrin a derbyn yn barod erbyn 7/9/20. Mae'r dosbarthiadau yn edrych yn wych - rydyn mor falch fod y Llywodraethwyr wedi dyfalbarhau i lythyrru gyda'r Sir i'w darbwyllo fod angen to newydd arnom.

Fe ddanfonom daflen wybodaeth bwysig allan ar ddiwedd y tymor ond fel mae'r canllawiau yn newid mae yna rai manion newidiadau i'r trefniadau.

Mae'r rhestr isod yn nodi y prif drefniadau gan gynnwys y rhai ychwanegol.

Fel y byddwn yn paratoi ar gyfer pawb i ddychwelyd ar y 14/9/20 byddwn yn diweddarau'r rhestr ac yn danfon cwestiynau fydd yn codi'n aml i chi

Yn ddiffuant,

Iona Edwards



Ysgol Pen-y-Garth

Ysgol Pen-y-Garth
Heol Tircoch, Penarth CF64 2QN

Ffôn – 029 20700262

Ffacs – 029 20712259

E-bost – YGPenYGarth@valeofglamorgan.gov.uk

Pennaeth – Mrs Iona Edwards

- Bydd disgyblion **Meithrin a Derbyn** yn dychwelyd I'w dosbarthiadau o wythnos nesaf ymlaen. Mae gwybodaeth am ddiwrnodau ymgartrefu wedi'u danfon allan ar ddiwedd y tymor. Mae clip fideo i ddilyn
- **Bydd Blynyddoedd 1 a 2** yn parhau i fod yn y Neuadd chwaraeon tan fydd eu dosbarthiadau yn barod.
- **Bydd blynyddoedd 1 a 2** yn dod mewn i'r neuadd chwaraeon drwy'r glwyd o'r maes parcio unrhyw amser rhwng 8.40 a 9.00. Bydd Blwyddyn 1 yn gallu cael eu casglu o 3.15 ymlaen a blwyddyn 2 o 3.30 ymlaen eto o'r un glwyd yn y maes parcio
- Mae toiledau ychwanegol ar gael ar gyfer blynyddoedd 1 a 2
- Bydd Wi-Fi ar gael yn y Neuadd chwaraeon o wythnos nesaf ymlaen.
- Ni fydd pryddiau poeth ar gael wythnos hyn na wythnos nesaf - bydd pecynnau bwyd ar gael neu gall disgyblion i ddod a phecyn bwyd o adref. Gan fod y Neuadd ginio yn barod ynghynt na'r disgwyl byddwn yn trefnu amseroedd penodol i bob un o'r grwpiau cyswllt i gael cinio ar wahan yn y Neuadd o 7/9 ymlaen a gobeithio y gallwn ddarparu pryddiau poeth o 14/9 ymlaen.
- Mae'r Adran Iau - **Blynyddoedd 3-6** yn defnyddio clwyd y brid fynedfa i ddod i mewn i'r Ysgol a mynd yn syth i'r dosbarth unrhyw amser rhwng 8.40 a 9.00. (Mae gan bob dosbarth ei ddrws allanol ei hun)
- Bydd yr Adran Iau i gyd yn gorffen am 3.30 gyda lle penodol **ar yr iard** i bob dosbarth i gasglu. (Byddwn yn adolygu hyn ar ol wythnos hon) wrth i'r wythnos yn mynd yn ei blaen)
- Rydyn yn parhau i ddilyn rheolau hylendid caeth a bydd gweithdrefnau golchi dwylo/ defnyddio diheintydd ayyb yn aros yr un peth a nodwyd ar ddiwedd y tymor.
- Byddwn yn darparu adnoddau unigol i bob plentyn - ni fydd angen dod a dim o adref.
- Bydd angen potel ddwr unigol wedi'i labelu ar bob plentyn a gallant lenwi rhain yn yr Ysgol yn ystod y dydd.
- Ar ddiwrnodau ymarfer corff bydd y disgyblion yn dod I'r Ysgol yn ei cit sef crys T, siorts/ trowsus loncian a 'trainers' tywyll. Ar bob diwrnod arall bydd disgyblion yn gwisgo gwisg Ysgol arferol.
- Does dim angen i ddisgyblion i ddod ag unrhyw gfagiau oni bai am fag brechdanau. Awgrymw'n fag bach pwrpasol y gall cael ei lanhau drwy sychu yn hawdd.
- Ni fydd clwb brechwast am yr wythnosau cyntaf ond gobeithiwn ddechrau hyn cyn gynted a phosib.





Ysgol Pen-y-Garth

Ysgol Pen-y-Garth
Heol Tiroch, Penarth CF64 2QN

Ffôn – 029 20700262

Ffacs – 029 20712259

E-bost – YGPenYGarth@valeofglamorgan.gov.uk

Pennaeth – Mrs Iona Edwards

- Bydd Clwb Carco (ar ol Ysgol) yn dechrau yn y Neuadd ginio o 7fed o Fedi ymlaen
- Ni ddylai unrhyw blentyn sydd yn dangos unrhyw symptomau COVID-19 ddod I'r Ysgol a rhaid trefnu prawf cyn gynted a phosib. Awgrymwn eich bod yn gwneud hyn drwy'r Ysgol. (gov.wales/self-isolation-stay-home-guidance-households-possible-coronavirus)
- Petai'r prawf yn bositif, yna byddwn yn gwethredu strategaeth profi, olrhain, diogelu
- Byddwn yn cadw nifer yr ymwelwyr i'r adeilad i'r isafswm posib ac os bydd angen i rieni siarad â'r athrawon ynglyn a'u plant yna anogwn y rhieni i wneud hyn drwy ffonio. Ni fydd modd i rieni i ddod mewn i'r adeilad oni bai ei bod wedi gwneud apwyntiad yn gyntaf.

